| | Barn gryno Cwestiwn 3<br>Addysgu a phrofiadau addysgu |
|---|---|
| | Adran Addysg Grefyddol |

| | Cylch arsylwi gwersi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cylch arsylwi | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| | **2016-2017** | | | | |
| 1 | Tymor yr Hydref 2016 | | | | |
| 2 | Tymor y Pasg 2017 | | | | |
| 3 | Tymor yr haf 2017 | | | | |
| | **2017-2018** | | | | |
| 1 | Tymor yr Hydref 2017 | | | | |
| 2 | Tymor y Pasg 2018 | | | | |
| 3 | Tymor yr haf 2018 | | | | |

| | Cylch craffu llyfrau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cylch arsylwi | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| | 2016-2017 | | | | |
| 1 | Tymor yr Hydref 2016 | | | | |
| 2 | Tymor yr Hydref 2016 | | | | |
| 3 | Tymor y Pasg 2017 | | | | |
| 4 | Tymor y Pasg 2017 | | | | |
| 5 | Tymor yr haf 2017 | | | | |
| | 2017-2018 | | | | |
| 1 | Tymor yr Hydref 2017 | * | | | |
| 2 | Tymor yr Hydref 2017 | | * | | |
| 3 | Tymor y Pasg 2018 | | | | |
| 4 | Tymor y Pasg 2018 | | | | |
| 5 | Tymor yr haf 2018 | | | | |

| 3.1 Ansawdd yr addysgu. | |
|---|---|
| | |
| **Agwedd** | **Arfarniad** |
| **Gwybodaeth bynciol ac arbenigedd athrawon** | Mae gan pob athro yn yr adran wybodaeth bynciol dda a chyfoes sy'n addas ar gyfer y cyrsiau y maent yn ei gyflwyno. Pan ddysgir y pwnc gan aelod o staff sydd â llai o arbenigedd, darperir cefnogaeth ac arweiniad manwl iawn er mwyn sicrhau fod y ddarpariaeth yn safonol. Mae'r adran efo cynlluniau gwersi ac adnoddau i gyd fynd ar gyfer yr athrawon heb arbenigedd er mwyn codi safon y gweri a gyflwynir ac er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y pynciau. |
| **Ennyn diddordeb ac ethos.** | A yw'r addysgu yn llwyddo i ennyn diddordeb disgyblion?<br>Mae adroddiadau arsylwi gwersi ac adroddiadau monitor llyfrau yn ategu'r ffaith bod y gwersi a'r themau a wneir o fewn y pwnc yn ennyn diddordeb y dysgwyr. Ceir tasgau amrywiol o fewn y cynlluniau gwaith sydd yn ddiddorol a chyfoes sydd at ddant y dysgwyr. Mae'r adran hefyd yn ceisio defnyddio enghreifftiau cyfoes o fewn y cynlluniau gwaith er mwyn gwneud y pwnc yn berthnasol iddynt yn eu bywydau bob dydd. Mae niferoedd sy'n dewis Add Gref fel pwnc yn CA4 yn dda, sydd hefyd yn ategu'r ffaith bod y gwersi yn ddiddorol I'r dysgwyr. |
| **Sicrhau cynnydd.** | Pa mor dda mae'r adran yn datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth i lefel briodol o uchel wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol? |
| **Pace y dysgu** | Mae`r athrawon yn cynnal gwersi ar gyflymder da iawn ac yn defnyddio ystod o dechnegau i sicrhau fod pawb yn canolbwyntio trwy'r wers e.e. tasgau byrion cychwynnol, cwestiynu, gwaith grŵp a gwaith par. |
| **Disgwyliadau, her, cymhlethdod a her tasgau** | Mae gan athrawon yr adran ddisgwyliadau uchel iawn o'r disgyblion ac maen nhw'n herio'r disgyblion i gyrraedd safon uchel iawn. O ganlyniad mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn.Os oes enghrifftiau o dangyflawni mae'r adran yn ymryyyd drwy gael y dysgwyr i ail gyflwyno'r gwaith ar o lei asesu neu hunan asesu ayyb.<br>Yn gyffredinol mae lefel gofynion tasgau`r adran yn cynnal lefel dda o her a disgwyliadau i`r disgyblion ar draws yr ystod gallu. |

| | |
|---|---|
| | **Barn gryno Cwestiwn 3**<br>**Addysgu a phrofiadau addysgu** |
| | **Adran Addysg Grefyddol** |

| | |
|---|---|
| **Ansawdd cynllunio ac amcanion dysgu clir.** | I ba raddau y mae gan athrawon amcanion clir ar gyfer dysgu disgyblion?<br>Nodir amcanion ar ddechrau pob uned o waith a cheir tystiolaeth o hyn o fewn llyfrau'r dysgwyr. Ceir hefyd tystiolaeth o hyn o fewn adroddiadau monitor llyfrau. Bydd nod ac amcanion yn cael ei nodi ar ddechrau gwersi gan yr adran hefyd.<br>Beth ydy ansawdd cynllunio tymor byr, tymor canol a thymor hir athrawon, pa mor dda y mae cynllunio'n elwa o gael cynlluniau gwaith pwrpasol?<br>Mae'r adran wedi addasu cynlluniau gwaith CA3 dros wyliau'r Haf 2017 ac mae Cynlluniau gwaith cwrs TGAU newydd blwyddyn 10 hefyd wedi cael ei greu dros wyliau'r Haf 2017. Bydd angen addasu hwn yn dilyn ei dreialu am y tro cyntaf eleni ac wrth gwrs unwaith bydd gan y Pennaeth Pwnc adnabyddiaeth well o gynnwys y cwrs wedi ei gyflwyno am y tro cyntaf eleni. Bydd angen i'r Pennaeth Adran gynllunio cynlluniau gwaith ar gyfer y cwrs blwyddyn 11 newydd at Fis Mai, ond mae hyn yn ddibynnol ar ddyddiadau rhyddhau llawlyfr y cwrs gan CBAC. Mae pob disgybl CA4 yn cael amlinelliad o cynnwys pob uned ar ddechrau'r cwrs ac meant yn ymwybodol o ble mae pob thema yn fitio mewn I'r darlun llawn o'r cwrs. Mae hyn yn arwain iddynt gael ddealltwriaeth glir o'r papur arholiada pha uned meant yn ateb yn y papur arholiad. |
| **Defnydd o ystod o ddulliau addysgu.** | Maent yn defnyddio ystod dda iawn o ddulliau ac adnoddau addysgu a hyfforddi sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi a'u herio i gyflawni'n ardderchog. Mae'r rhain yn cynnwys y defnydd effeithiol iawn o gwestiynu, sgiliau meddwl sy'n galluogi'r disgyblion i ysgwyddo cyfrifoldeb ymestynnol am eu datblygiad eu hunain. Mae sgiliau cwestiynu'r athrawon yn gyson dda. Mae'r adran yn cynllunio gwersi efo cwestiynnau wedi eu paratoi o flaen llaw e.e. drwy wordwall er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn ateb yn estynedig. |
| **Technegau cwestiynu.** | Mae'r adroddiadau arsylwi gwersi yn dweud bod ansawdd cwestiynnu'r athrawon yn dda. Ceir defnydd o amrywiaeth o gwestiynnu agored sy'n annog y dysgwyr i ateb yn estynedig. |
| **Cyfarwyddiadau.** | A oes eglurder cyfarwyddiadau ac esboniadau athrawon a pha mor dda y mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ganlyniad?<br>Ceir cyfarwyddiadau clir a phenodol gan yr athrawes ble'n berthnasol. Os oes angen canllawiau pellach, mae'r adran yn darparu adnoddau ychwanegol efo canllawiau manylach iddynt e.e. fframiau, cam wrth gam ayyb. Gweler enghreifftiau o rhain o fewn y cynlluniau gwaith. O ganlyniad mae gan y dysgwyr ddealltwriaeth gwell o'r dasg o dan sylw ac mae eu medrau o fewn y pwnc yn cynyddu. |
| **Ansawdd addysu`r 18 agwedd** | Ydy`r ddarpariaeth addysgu yn adlewyrchu`r 18 canllaw cytunedig o fewn yr ysgol sef: Asesu, asesu ar gyfer dysgu, sgiliau meddwl, llythrennedd, rhifedd, cwricwlwm digidol, addysgu bechgyn, cwestiynu gwahanol lefelau o ddealltwriaeth, cwestiynu dealltwriaeth ieithyddol, meddwl dwfn, gwahaniaethu, dysgu disgyblion ar frig yr ystod gallu, dysgu disgyblion ar waelod yr ystod gallu, gwneud defnydd effeithiol o gymorthyddion, hyrwyddo hyder disgyblion yn y Gymraeg, dysgu dwyieithog, dysgu disgyblion â gwahanol lefelau o hyfedredd yn y Gymraeg o fewn yr un grŵp, sicrhau cynnydd yn y sgiliau dysgu craidd.<br><br>Mae'r adran wedi sicrhau bod yr 18 agwedd dysgu wedi cael eu ymgoffori i mewn i'r cynlluniau gwaith ar gyfer pob cyfnod allweddol. Cred yr adran bod y ddarpariaeth ar gyfer yr 18 agwedd yma yn dda iawn o fewn y pwnc a cheir tystiolaeth o hyn o fewn adroddiadau arsylwi gwersi ac adroddiadau monitro llyfrau. Cydnabyddir bod angen datblygu'r elfen o cwricwlwm digidol o fewn y gwersi Addysg Grefyddol ac mae hyn yn rhywbeth mae'r Pennaeth Pwnc wedi gofyn am cael ei hyfforddi ymhellach ynddo e.e. cael mynd ar gwrs efo athro addysg grefyddol sy'n rhagori yn y maes yma. |
| **Rheoli dosbarth ac ymddygiad** | Pa mor dda y mae'r athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion. A ydynt yn trin pob disgybl yn gyfartal gan ddangos parch priodol atynt.<br>Mae rheoli dosbarth ac ymddygiad y pennaeth Pwnc yn dda iawn. Mae pob un disgybl yn cael eu trin yn gyfartal a dangosir parch at bob un disgybl. |
| **Cyswllt rhwng ansawdd** | A geir perthynas drionglog gadarn rhwng ansawdd addysgu, ansawdd llyfrau a |

| | |
|---|---|
| **addysgu, ansawdd llyfrau a chyflawniad.** | chanlyniadau allanol?<br>Mae'r adran yn credu bod adroddiadau arsylwi gwersi, adroddiadau monitro llyfrau a chanlyniadau rhagorol yr adran yn atgyfnerthu'r ffaith bod yna berthynas gadan rhwng ansawdd addysgu'r adran, ansawdd llyfrau'r adran a chyflawniad y dysgwyr. |
| **Defnydd o staff cefnogol.** | Pa mor llwyddiannus y mae athrawon yn defnyddio staff eraill i gefnogi dysgu'r disgyblion?<br>Mae'r adran yn defnyddio'r cymhorthyddion sydd yn y gwersi yn effeithiol drwy ddefnyddio adnabyddiaeth o'r disgybl penodol a'r berthynas rhwng y disgybl a'r cymmhorthydd neu'r dasg penodol o dan sylw. |
| **Amgylchedd dysgu - diwyg ac ethos yr ystafell ddosbarth:** | Mae pob dosbarth ag awyrgylch dysgu addas sydd yn hybu dealltwriaeth a diddordeb y disgyblion yn y pwnc. Mae'r adran yn sicrhau bod delwedd yr ystafelloedd yn atyniadol ac yn atgyfnerthu diddordeb a dealltwriaeth y disgyblion yn y pwnc. Mae gan yr adran hefyd arddangosfeydd sydd yn hybu termau pynciol y disgyblion, sgiliau dysgu a meddwl y disgyblion ac arddangosfeydd sydd yn hybu sgiliau darllen y disgyblion<br>I ba raddau y mae dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr lle gall pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf a lleiaf abl, ddysgu'n gynhyrchiol? |
| **Hyrwyddo cyfle cyfartal** | Mae'r adran yn dilyn polisi cyfle cyfartal yr ysgol er mwyn sicrhau tegwch a chyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl. |
| **Asesu** | |
| **Polisi asesu** | A geir polisi asesu adrannol effeithiol a weithredir yn gyson?<br>Mae'r adran yn dilyn polisi asesu'r adran yn ddi ffael. |
| **Disgyblion yn deall y drefn asesu adrannol** | Mae'r adran yn sicrhau bod pob disgybl yn cael copi o daflen 'Sut allaf wneud cynnydd mewn Addysg Grefyddol' ar ddechrau ei llyfrau er mwyn sicrhau ei bod yn deall sut mae'r adran yn asesu ei gynnwys. Adran yn gwneud defnydd effeithiol o daflen 'Sut allaf wneud cynnydd..' sef taflen yn dilyn arholiad neu brawf. Mae'r adran yn dilyn polisi marcio'r ysgol o 2* a Dymuniad. Bydd yr adran hefyd yn sicrhau bod y dysgwyr yn ymateb i waith marcio'r adran. |
| **Cywirdeb asesiadau** | Pa mor dda mae athrawon yn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy?<br>Mae dadansoddiad canlyniadau CA4 yr adran yn dangos bod asesiadau'r adran yn ddilys. Mae yna ambell enghraiff ble mae dysgwyr wedi methu cyrraedd gradd uwch, ond rhan amlaf mae'r adran wedi nodi'r cynydd I adlewyrchu bod y targed yma yn un heriol. Rhan amlaf ambell farc allan ohoni mae'r adran wedi bo e.e. Emily Williams 1 marc oddiwrth ei tharged o gradd C yn haf 2017. |
| **Adroddiadau ac asesu cyflawniad** | Mae'r adran hefyd yn darparu adroddiadau clir, systematig, a defnyddiol ar gyfer bob disgybl. Mae'r adran yn defnyddio'r adroddiadau hyn er mwyn rhannu ugwybodaeth am gynnydd disgyblion yn y sgiliau pynciol. Mae'r adran yn credu bod yr adroddiadau yn asesu cyflawniad yn effeithiol.<br><br>A geir trefn effeithiol i gwblhau adroddiadau i asesu cyflawniad? |
| **Adolygu a thracio cynnydd** | Mae disgyblion yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd yn y gwersi, ac yn deall sut i wneud cynnydd yn y pwnc ac yn cymryd rhan effeithiol yn y tasgau lle maent yn gosod eu targedau dysgu eu hunain. Mae aelodau o staff yr adran yn annog disgyblion yn gyson i ystyried adborth ac i weithredu yn llwyddiannus yn dilyn yr adborth hwn. Mae'r adran yn annog disgyblion i ymateb i waith marcio'r athro drwy ofyn cwestiwn neu gofyn iddynt ymhelaethu ymhellach.<br><br>Mae gan yr adran system dracio ar gyfer blwyddyn 10 ac 11 er mwyn monitro llwyddiant a thangyflawni'r disgyblion yn ystod y flwyddyn, a gweithredu/ ymyrryd yn ôl y gofyn.<br>Mae disgyblion set 1 a 2 a 3 yn gwneud cynnydd da iawn mewn gwersi ac mae disgyblion set 4 a 5 yn gwneud cynnydd da yn gyson. |

| | Barn gryno Cwestiwn 3<br>Addysgu a phrofiadau addysgu |
|---|---|
| | **Adran Addysg Grefyddol** |

| | |
|---|---|
| | Mae gan yr adran drefn safonol ac amrywiol i dracio disgyblion yn CA3 a CA4. Mae trefniadau cadarn i osod targedau i ddisgyblion unigol ac ar gyfer tracio cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn cael effaith amlwg ar adnabod anghenion ymyrraeth penodol er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn cyrraedd y targedau mae'r adran yn osod ar gyfer y disgyblion. |
| **Dadansoddi canlyniadau asesu** | Mae'r adran yn dadansoddi canfyddiadau asesu yn rhagorol. Mae'r adran dadansoddiad canlyniadau CA4 o ansawdd uchel ac mae dadansoddi cynnwys asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac asesiadau arholiadau hefyd yn dda. |
| **Defnydd o asesu i lywio cyfeiriad addysgu:** | Mae'r adran yn asesu yn rheolaidd ac yn defnyddio'r asesiadau hyn er mwyn casglu gwybodaeth sydd yn llywio'r cynllunio ar gyfer yr adran yn y dyfodol mewn dull effeithiol iawn.<br>I ba raddau y mae athrawon yn dadansoddi deilliannau eu hasesiadau o ddisgyblion i lywio'r ffordd y maent yn cynllunio gwersi yn y dyfodol a'r camau nesaf o ran dysgu'r disgyblion?<br>Bydd canlyniadau profion termau a phrofion diwedd uned yn rhoi data gwerthfawr I'r Pennaeth Pwnc ynglyn a pha adrannau mae pa ddisgyblion yn wan arnynt. Mae'r pennaeth adran wedyn yn targedu'r dysgwyr yma efo'r adrannau yma ac yn rhoi tasgau/profion ychwanegol ar yr adrannau gwan yma. Cred yr adran bod hyn yn effeithiol oherwydd mae canlyniadau CA4 yr adran yn dda iawn. Byddai'r adran yn dymuno cael cefnogaeth MH I allu targedu hyn yn fwy effeithiol byth e.e. pe byddai'r adran wedi cael MH yn rheolaidd y llynnedd mewn gwersi adolygu ar ol ysgol, yna mae'r Pennaeth adran yn sicr y byddai Emily Williams wedi cael C.<br>dy`r drefn olrhain adrannol yn effeithiol?<br>Ydy`r gwaith ymyrraeth adrannol ar sail tracio yn effeithiol? |
| **Y Gofynion Statudol** | Mae'r adran wedi ymgorffori'r ddogfen fframwaith sgiliau i mewn i gynlluniau gwaith yr adran ac yn gweithredu hyn o fewn y gwersi ar draws pob ystod gallu. |
| **Asesu ar gyfer dysgu** | |
| **Gosod amcanion a chyd destun eang** | Mae'r adran yn rhannu amcanion y wers/adran gwaith efo'r disgyblion ar ddechrau pob gwers/uned.. Mae adroddiadau arsylwi gwersi a monitro llyfrau yn tystio i hyn. Mae'r adran hefyd yn darparu taflenni Walt ar gyfer pob uned sydd yn rhoi amcanion yr uned i'r disgyblion fel bod ganddynt drosolwg o'r hyn byddem yn ei astudio, ac yn gallu gosod y gwersi unigol mewn cyd-destun ehangach.<br>Mae pob un athro yn yr adran yn cysylltu pob darn o waith efo'r cyd destun eang er mwyn hybu dealltwriaeth y disgyblion o lle mae pob gwers yn cysylltu a'r darlun cyflawn i'r uned, fel ei bod yn gallu gwneud cysylltiadau. |
| **Y defnydd o MPLL** | Caiff disgyblion gyfleoedd niferus i ddefnyddio, addasu a chreu meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau amrywiol yn rheolaidd fel rhan o ddulliau addysgu anffurfiol a ffurfiol yr adran. Adolygir yn rheolaidd eu datblygiad yn unol â'r meini prawf llwyddiant. |
| **Hunan asesu ac asesu cyfoedion** | Caiff disgyblion gyfleoedd i asesu eu cyfoedion mewn tasgau penodol yn rheolaidd (gweler cynlluniau gwaith) ac mae gan yr adran strategaeth i sgilio`r disgyblion er mwyn gwneud hynny'n briodol. Mae'r adran wedi targedu cyfleoedd effeithiol a niferus er mwyn gallu gwneud hyn. Ceir tystiolaeth o hyn o fewn llyfrau'r dysgwyr. |
| **Adborth llafar ac ysgrifenedig** | Mae adborth llafar da yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud yn y pwnc a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella yn y pwnc. Mae'r adborth yn datblygu gallu'r disgyblion i asesu eu perfformiad eu hunain mewn gwahanol dasgau yn llwyddiannus.<br>Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd a manwl a rhoddir sylwadau penodol, cadarnhaol ac o ansawdd uchel i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith ymhellach. Mae |

| | |
|---|---|
| | marcio cynhwysfawr yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r marcio hwn yn drwyadl ac yn effeithiol iawn. Mae'r adran wedi creu cardiau marcio sydd yn sicrhau cysondeb rhwng aelodau o staff gwahnol yn yr adran ar gyfer nifer helaeth o'r tasgau yn 7 & 8. Mae'r cardiau yn cyd fynd efo'r mpll ar gyfer y tasgau, ac mae lle iddynt gywiro gwallau iaith arnynt hefyd. |
| **Targedau dysgu** | I ba raddau mae gan ddisgyblion dargedau dysgu ac i ba raddau mae ganddynt berchnogaeth ar y targedau dysgu hyn a dealltwriaeth lawn ar sut i wella?<br>Ar ddechrau bob blwyddyn mae pob disgybl yn cael gwybod ei darged e.e. interims ar ddechrau bl 10 a gradd diwedd blwyddyn 10 ar ddechrau blwyddyn 11. Rhan amlaf mae'r adran yn rhoi targed o un gradd yn uwch I ddisgyblion yn blwyddyn 11 na'r gradd a gafwyd ar ddiwedd blwyddyn 10. Mae bron bob un yn llwyddo I gyrraedd y targedau heriol yma. Mae'r Pennaeth adaran a'r disgyblion yn ymwybodol o'r targed yma ac mae hyn yn rhywbeth sydd yn cael ei gynllunio tuag ato drwy'r flwyddyn e.e. adborth wrth farcio, pa nodiadau adolygu mae'r dysgwyr yn ei gael, pa gymorth ychwanegol mae pa disgyblion yn ei gael. mor dda y mae staff yr adran yn cymryd sylw o'r targedau ac yn darparu rhaglen waith addas i helpu disgyblion i gyrraedd y targedau? |

**Tystiolaeth**

- Adroddiadau arsylwi a/neu myfyrio arwersi a ddilyswyd yn allanol yn cadarnhau bod canllawiau addysgu cytûn yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn gyson.
- Adroddiadau craffu llyfrau a ddilyswyd yn allanol yn cadarnhau bod safonau addysgu, asesu a marcio yn dda.
- Adroddiadau craffu ar lyfrau yn cadarnhau bod canllawiau addysgu cytunedig yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn gyson.
- Polisi asesu ysgol gyfan.
- Polisi asesu adrannol.
- Taenlenni olrhain adrannol.
- Adborth fforwm disgyblion.

**3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm.**

| Agwedd | Arfarniad |
|---|---|
| | |
| **Model iaith a hyrwyddo addysgu dwyieithog** | Mae pob athro yn fodel iaith dda eu hunain o fewn y pwnc. O fewn yr adran mae pawb yn llwyddo i sefydlu perthynas waith arbennig sy'n meithrin dysgu effeithiol iawn. Mae gan yr adran dermau dwy ieithog ar ddechrau unedau o waith. |
| **Ansawdd cynllunio.** | Mae'r athrawon pwnc yn cyllunio i safon uchel iawn ac yn drwyadl ar gyfer anghenion y dysgwyr maent yn ei addysgu gan ddefnyddio adnoddau'r adran. Mae ganddynt amcanion pendant ar gyfer y sesiynau a addysgir a chaiff hyn effaith amlwg ar safonau. Caiff unedau gwaith eu haddasu yn rheolaidd yn dilyn adborth adrannol ac yn unol ag anghenion y disgyblion. |
| **Agweddau arloesol i`r cwricwlwm** | I ba raddau y mae`r adran yn greadigol a dychmygus wrth fwrw ymlaen â mentrau cwricwlaidd a ystyriwyd yn dda er budd disgyblion?<br>Mae'r adran bob tro yn awyddus i fwrw ymlaen a mentrau cwricwlaidd sydd yn cael eu hystyried yn dda ar gyfer budd y disgyblion. Mae cynlluniau gwaith yr adran wedi nodi'n glir ble mae cyfleoedd i'r dysgwyr fod yn greadigol o fewn y pwnc, ac mae'r adran yn ymdrechu i ychwanegu i'r rhain yn ystod y flwyddyn yn enwedig yr ochr cwricwlwm digidol. Mae pob cynllun gwaith yn nodi'n glir hefyd pa agwedd o weledigaeth Donaldson mae'r gwaith yn ei gyfeirio ato.<br>Ydy`r cynllunio cwricwlaidd yn rhoi sylw i weithredu gweledigaeth Donaldson. |
| **Gwahaniaethu** | Mae rhaglen waith ac adnoddau dysgu`r adran yn addas ar gyfer hybu sgiliau disgyblion is eu gallu. Mae'r defnydd o gymorthyddion yn annog y digyblion i weithio yn hyderus yn y pwnc. Mae'r adran yn darparu fframiau ysgrifennu a sgaffaldau ar gyfer disgyblion is eu gallu e.e. Nodiadau adolygu gwahaniaethol ar gyfer y cwrs TGAU ym mlwyddyn 10 &11 ac hefyd yn CA3. Mae'r adran hefyd wedi gwahaniaethu cyrsiau blwyddyn 7,8 a 9 ymhellach. |

| | Barn gryno Cwestiwn 3<br>Addysgu a phrofiadau addysgu |
|---|---|
| | Adran Addysg Grefyddol |

| | |
|---|---|
| | Mae`r adran wedi cynllunio cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion abl a thalentog ddatblygu eu doniau ymhellach e.e. gwersi adolygu penodol ar gyfer disgyblion abl a thalentog CA4. Mae'r adran hefyd yn darparu nodiadau adolygu gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion abl a thalentog. Mae'r adran hefyd yn trefnu nifer o ymweliadau addysgol er mwyn ehangu gorwelion ac ysbrydoli disgyblion. Mae'r adran hefyd wedi datblygu'r arfer o ddefnyddio 'QR codes fel tasgau gwaith cartref neu tasg cyn mentro ar y gwaith cartref er mwyn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr abl a thalentog ymhellach.<br><br>Mae'r adran hefyd yn llwyddiannus o ran darparu gwaith i fodloni anghenion penodol y rhan fwyaf o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai sy'n fwy abl a thalentog. Mae'r adran wedi gwahaniaethu taflenni gwaith ar gyfer anghenion dysgwyr ady ac abl a thalentog blwyddyn 7, 8 a 9 yr ysgol. Mae rhain yn cynnwys deunyddiau darllen, tasgau efo clipiau qr codes er mwyn hybu dealltwriaeth y dysgwyr, fframiau ysgrifennu gwahaniaethol ar gyfer tasgau penodol e.e. Tasg 'mae'n iawn i ni fwyta cig', 'Mae dal gwerth i'r 10 Gorchymyn yn ein cymdeithas heddiw'. |
| **Effeithlonrwydd ymyrraeth** | Mae'r ymyrraeth a geir yn sicrhau bod y dysgwyr yn gwneud cynydd yn y pwnc ac yn llwyddo e.e. yn y cyrsiau TGAU ceir ymyrraeth effeithiol iawn ar gyfer y grwp targed ffiniol gan gymhorthydd efo arbenigedd yn y pwnc er mwyn mynd dros adrannau o'r cwrs sy'n wan ganddynt mewn grwpiau llai neu'n unigol yn ddibynnol ar darganfyddiadau'r monitro'r cynydd a wneir o fewn yr adran. Mae'r adran hefyd yn gwneud defnydd da o adnoddau gwahaniaethol, mpll a fframiau ysgrifennu i sicrhau bod medrau'r holl ddysgwyr yn cael eu datblygu a'u bod yn llwyddo yn y pwnc. |
| **Profiadau cwricwlaidd allgyrsiol (teithiau addysgol).** | Gwersi adolygu ar ôl ysgol yn CA4. Darperir ymweliadau addysgol er mwyn ehangu gorwelion a rhoi profiadau uniongyrchol o'r hyn a ddysgir yn y dosbarth er mwyn cyfoethogi'r profiadau a'r dysgu e.e. Ymweliad addysgol CA4 i Efrog Newydd a Washington, Krakow yng Ngwlad Pwyl, Eglwysi lleol, Synagog, Gurdwara, Mosg lleol. Yn ogystal mae'r adran yn trefnu ymgyrch dros y Nadolig i gasglu eitemau hylendid a dillad ar gyfer y ffoaduriaid, yn ogystal â threfnu cyfleoedd i'r dysgwyr fynd i gefnogi gwaith didoli rhoddion ar gyfer y ffoaduriaid mewn eglwys lleol. |
| **Dilyniant** | Pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o CA2 ac wrth iddynt symud trwy'r ysgol?<br>Ni does llawer o Addysg Grefyddol yn digwydd mewn sawl un o'r ysgolion cynradd yn ol yr hyn mae disgyblion bl 6 yn ddweud wrthaf pan meant yn cyrraedd YYM. Mae'r cynlluniau gwaith yr adran wedi cael eu cynllunio'n fwriadol fel eu bod yn adeiladau eu gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau yn seiliedig ar y dysgu blaenorol. Mae hyn yn anghenrheidiol os yw'r dysgwyr am lwyddo yn y pwnc ym mlwyddyn 10. Mae canlyniadau'r adran ym mlwyddyn 10 yn dda iawn felly yn ol marn yr ardran mae hyn yn dechneg mae'r adran yn weithredu yn effeithiol iawn.<br><br>I ba raddau y ceir tystiolaeth o bartneriaeth strategol effeithiol â'r dalgylch cynradd a sefydliadau addysg bellach. Mae hyn yn rhywbeth sydd angen ei ddatblygu o fewn yr adran. |

| Tystiolaeth | |
|---|---|
| • Rhaglen allgyrsiol<br>• Polisi cwricwlaidd.<br>• Cynlluniau gwaith.<br>• Cynlluniau gwahaniaethu.<br>• Darpariaeth pontio.<br>• Adroddiadau gwersi.<br>• Adroddiadau craffu llyfrau | • Targedau disgyblion.<br>• Amserlen.<br>• Cyswllt ôl 16.<br>• Cynlluniau ymyrraeth.<br>• Dadansoddiad o gynnydd at dargedau ac effaith ymyrraeth. |

| 3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau. |
|---|
| |

| | Barn gryno Cwestiwn 3<br>Addysgu a phrofiadau addysgu |
|---|---|
| | Adran Addysg Grefyddol |

| Agwedd | Arfarniad |
|---|---|
| | |
| **Strategaeth y Gymraeg.** | Ydy darpariaeth y Gymraeg fel cyfrwng yn dda? Ydy disgyblion yn gwneud cynnydd rhwng y cyfnodau allweddol? Beth ydy ansawdd darpariaeth yr adran ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol a sefyllfaoedd anffurfiol? Ydy`r model iaith adrannol yn addas?<br><br>Mae model iaith yr adran yn addas. Mae gan pob tasg estynedig mpll sy'n cynnwys ffocws iaith penodol (gwelercynlluniau gwersi). Mae gan yr adran hefyd enghreifftiau niferus o fframiau ysgrifennu I gefnogi'r dysgwyr wrth gwblhau tasgau ac mae'r rhain wedi cael eu gwahaniaethu ar gyfer gallu a gallu ieithyddol y dysgwyr. |
| **Saesneg fel cyfrwng:** | I ba raddau mae trefniadau adrannol yn sicrhau bod disgyblion yn caffael y medrau llythrennedd Saesneg angenrheidiol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm?<br>Mae cynlluniau gwaith yr adran wedi adnabod tasgau penodol sydd rhaid eu cwblhau drwy gyfrwng y Saesneg. Veir mpll penodol ar gyfer pob tasg ac mae iddynt ffocws iaith penodol hefyd. Cyflwynir termau pynciol yn ddwyieithog ar gychwyn pob uned newydd ac yn ychwanegol lle'n briodol hefyd. Rhaid cofio bod nifer o dermau Addysg Grefyddol mewn Punjabi, Hebraeg, neu Arabeg hefyd. |
| **Sgiliau ysgrifennu** | Mae`r cynllun gwaith yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd i hybu sgiliau ysgrifennu'r disgyblion o fewn y pwnc ac mae`r ddarpariaeth i hybu ysgrifennu yn dda iawn. Defnyddir ystod o ddulliau addysgu effeithiol er mwyn hybu sgiliau'r disgyblion e.e. fframiau ysgrifennu i hybu ysgrifennu a sgaffaldau a hyderir y bydd hyn yn arwain at enghreifftiau gwell o ysgrifennu estynedig yn llyfrau'r dysgwyr ar draws yr ystod gallu.<br><br>Mae'r adran yn defnyddio fframiau ysgrifennu gwahaniaethol ar gyfer tasgau penodol er mwyn ceisio datblygu sgiliau ysgrifennu dysgwyr ady ac hefyd er mwyn herio'r dysgwyr ar frig yr ystod gallu. Mae'r adran hefyd wedi dechrau addasu'r fframiau er mwyn cyd fynd efo sgiliau gwerthuso'r cwrs TGAU Newydd.<br><br>Mae`r adran yn gwneud defnydd da o lyfr iaith yr ysgol o fewn CA3 yn bennaf a hyderir y bydd hyn yn ei dro yn arwain at wella safonau.Yn ogystal mae'r adran weid dechrau gwneud defnydd o'r cardiau gwella iaith ar gyfer tasgau penodol yn CA3 a CA4 a hyderir y bydd hyn yn gwella safon ysgrifenedig y dysgwyr.<br><br>Ceir cyswllt clir rhwng y ddarpariaeth hybu ysgrifennu a`r strategaeth lythrennedd genedlaethol e.e cyfeirir at y fframwaith yn y cynlluniau gwaith ac yn yr mpll ar gyfer y tasgau ysgrifenedig penodol. Mae ffocws iaith ar rhan fwyaf o'r mpll tasgau ysgrifenedig yr adran drwy CA3. |
| **Sgiliau darllen** | Mae`r cynllun gwaith yn cynnwys amryw o gyfleoedd i hybu sgiliau darllen (darllen pâr, sgimio, sganio, craff ddarllen). Hyderir y bydd hyn yn gwella safonau'r dysgwr ac yn magu hyder y disgyblion wrth gwblhau tasgau darllen o fewn y pwnc. Mae'r adran yn defnyddio mpll ar gyfer tasgau darllen penodol er mwyn nodi'n glir pa sgil darllen meant yn ei ddatblygu.<br><br>Ceir cyswllt amlwg rhwng y ddarpariaeth ddarllen yr adran a`r strategaeth lythrennedd genedlaethol. |
| **Sgiliau llafar** | Mae'r cynllun gwaith yn cynnwys amryw o gyfleoedd i hybu sgiliau llafar y disgyblion o fewn y pwnc. Mae trefn yr adran i annog y disgyblion i alw i gof gwybodaeth flaenorol mewn adroddiadau gwersi yn tystio i'r ffaith bod gan y dysgwyr sgiliau llafar da iawn yn y pwnc. Ceir amryw o gyfleoedd o fewn y pwnc i fynegi barn am wahanol destunau ac adlewyrchir hyn yn llyfrau'r disgyblion yn safon ei hymatebion i gwestiynau gwerthuso sydd wedi cael ei sylfaenu ar y gwaith llafar. Ceir tystiolaeth o safon gwaith llafar y dysgwyr hefyd yn adroddiadau arsylwi gwersi'r adran. Mae'r disgyblion hefyd yn cael cyfle yn ystod rhai tasgau llafar i arfarnu ei gwaith llafar ar daflen sydd wedi ei selio ar y strategaeth llythrennedd genedlaethol er mwyn gweld yr hyn meant yn wneud yn llwyddiannus a beth ddylent wneud er mwyn gwella. Mae'r adran hefyd wedi datblygu tasg llafar drwy gyfrwng y Saesneg er mwyn hybu |

| | Barn gryno Cwestiwn 3<br>Addysgu a phrofiadau addysgu |
|---|---|
| | **Adran Addysg Grefyddol** |

| | |
|---|---|
| | sgiliau llafar Saesneg y dysgwyr hefyd,<br><br>Ceir cyswllt amlwg rhwng y ddarpariaeth lafar a`r strategaeth lythrennedd genedlaethol. |
| **Sgiliau Llythrennedd** | Mae gan yr adran strategaeth adrannol effeithiol sydd wedi ei seilio ar strategaeth lythrennedd yr ysgol sy`n caniatau i ddisgyblion wneud cynnydd priodol yn eu sgiliau llythrennedd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr arddangosfeydd yn y dosbarth ac yng ngwaith y disgyblion. Mae cyfle i'r disgyblion wneud gwaith ymchwil ar ffurf gwaith ymchwil ar y wê a darllen deunyddiau penodol. Maent hefyd yn cael cyfle i greu amrywiaeth o dasgau sy'n hybu sgiliau llythrennedd y disgyblion e.e. pamffledi, cwestiynau gwerthuso, cyflwyno gwybodaeth ayyb (Gweler Cynlluniau gwaith adrannol). Mae termau pynciol yn ogystal a fframiau iaith a sgaffaldiau gwahaniaethol yn cael ei defnyddio yn reolaidd er mwyn gwella sgiliau'r dysgwyr. Yn ogystal, mae'r adran wedi gwneud cynnydd yn y ffordd mae'r dysgwyr yn ymateb i waith marcio'r athro. Yn dilyn adroddiad monitro llyfrau, mae'r adran yn parhau i geisio datblygu'r arferiad o gael y dysgwyr i ail gopïo darn o waith gwallus eto yn gywir yn dilyn y gwaith marcio. Mae'r adran hefyd yn dilyn polisi amrcio'r ysgol ac yn sicrhau bod y dysgwyr yn ymateb i waith. |
| **Sgiliau Meddwl** | Mae cynlluniau gwaith yr adran yn cynnwys cynllunio pendant a niferus i hyrwyddo sgiliau meddwl ar draws yr ystod gallu. Caiff disgyblion gyfleoedd niferus i ddatblygu sgiliau meddwl. Mae strategaethau yr adran yn cynnwys sgiliau cwestiynau lefel uchel gan yr athro, a thasgau penodol rheolaidd. |
| **Sgiliau gwrando** | I ba raddau mae trefniadau'r adran yn sicrhau bod disgyblion yn caffael y medrau gwrando angenrheidiol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm?<br>Ceir amrywiaeth o dasgau ble mae disgwyl i'r dysgwyr ddefnyddio sgiliau<br>I ba raddau mae`r fframwaith llythrennedd (gwrando) wedi ei gyflwynon effeithiol o fewn yr adran?<br>Mae'r cynlluniau gwaith yn nodi enghreifftiau helaeth ble mae gofyn i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau gwrando. Mae'r tasgau wedi cael eu creu gan roi ystyriaeth i fframwaith llythrennedd (gwrando). Mae hyn yn cael ei nodi ar y cynlluniau gwaith. |
| **Rhifedd** | Mae adroddiad arsylwadau gwersi a cynlluniau gwaith y dysgwyr yn awgrymu bod cyfleoedd priodol i ddysgwyr i gymhwyso eu sgiliau rhif yn y pwnc. Mae hyn yn digwydd yn achlysurol mewn rhai tasgau e.e. tasg crefyddau mawr y byd a Cylch creu'r Cristnogion. Mae'r adran wedi datblygu mpll er mwyn cyd fynd efo'r dasg yma hefyd<br><br>Ceir cyswllt amlwg rhwng y ddarpariaeth rifedd a`r strategaeth rifedd genedlaethol. |
| **Cwricwlwm digidol** | Mae cynlluniau gwaith yr adran wedi eu haddasu yn effeithiol er mwyn sicrhau cyfleoedd amrywiol i ddysgwyr gymhwyso eu sgiliau TGCh o fewn y pwnc e.e.creu tasgau ar feddalwedd Microsoft amrywiol. Mae`r adran yn rhan o brosiect ipads fydd yn arwain at ddatblygiadau pellach yn y maes. Llunir meini prawf llwyddiant a chanllawiau sgiliau ar gyfer pob tasg a gyflwynir er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir gan y dysgwyr o'r hyn sydd angen ei gyflawni.<br><br>Yn sgîl gwaith yr adran i sicrhau cywirdeb ieithyddol wrth i ddisgyblion broesu geiriau yn y Gymraeg, mae lefel gwallau a achosir gan autocorrect a.y.y.b. wedi lleihau yn sylweddol. Mae'r adran yn parhau i hyrwyddo'r arfer o newid y ffurfiau iaith ar ddogfen cyn i ddysgwyr ddechrau are u gwaith i osgoi gwallau fel i yn ganol brawddegau Cymraeg. |

| Tystiolaeth | |
|---|---|
| • Model cwricwlaidd.<br>• Cynllun gwaith pynciol.<br>• Profiadau trawsbynciol.<br>• Llyfrau disgyblion.<br>• Adroddiadau craffu llyfrau.<br>• Adroddiadau arsylwi gwersi. | • Portffolio pynciol.<br>• Canlyniadau profion darllen, CA3 a TGAU.<br>• Canlyniadau profion rhifedd, CA3 a TGAU.<br>• Strategaeth y Gymraeg.<br>• Canlyniadau CA3 a TGAU. |

| | Barn gryno Cwestiwn 3<br>Addysgu a phrofiadau addysgu |
|---|---|
| | Adran Addysg Grefyddol |

| Cryfderau | Materion ar gyfer gweithredu pellach |
|---|---|
| • | • |

| Crynodeb o faterion i roi sylw iddynt | | |
|---|---|---|
| **Agwedd** | **Cryfderau** | **Materion ar gyfer gweithredu pellach** |
| 3.1 Ansawdd yr addysgu. | • Darpariaeth ar gyfer disgyblion abl a thalentog.<br>• Defnyddio MPLL mynegiant ar mpll tasgau i hybu sgiliau ysgrifennu y disgyblion.<br>• Mae gan pob athro yn yr adran wybodaeth bynciol dda a chyfoes sy'n addas ar gyfer y cyrsiau y maent yn ei gyflwyno. | • Tasgau er mwyn hyrwyddo'r fframwaith digidol<br>• Cynnwys elfennau penodol o'r fframwaith digidol ymhellach o fewn y technegau dysgu ac addysgu. |
| 3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm. | • Mae gan athrawon yr adran ddisgwyliadau uchel iawn o'r disgyblion ac maen nhw'n herio'r disgyblion i gyrraedd safon uchel iawn. O ganlyniad mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn.<br>• Mae gan yr adran strategaeth adrannol dda wedi ei seilio ar strategaeth lythrennedd yr ysgol sy'n caniatáu i ddisgyblion wneud cynnydd da yn eu sgiliau llythrennedd. Gellir datblygu hyn ymhellach drwy ddarganfod cyfleoedd pellach i gyfeirio at gywirdeb iaith ac ymdrin â nodweddion iaith yn gyson mewn ffurf ffurfiol ac yn anffurfiol wrth i'r cyfle godi o fewn y gwersi. | • Angen parhau sicrhau cysondeb yn gwaith marcio aelodau ymylol o'r adran. |
| 3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau. | • Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd a manwl a rhoddir sylwadau penodol, cadarnhaol ac o ansawdd uchel i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith ymhellach. Mae marcio cynhwysfawr yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r marcio hwn yn drwyadl ac yn effeithiol iawn.<br><br>• Caiff disgyblion gyfleoedd niferus i ddefnyddio, meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau amrywiol yn rheolaidd fel rhan o ddulliau addysgu anffurfiol a ffurfiol yr adran. Adolygu'n rheolaidd eu datblygiad yn unol â'r meini prawf llwyddiant. | • Parhau i tracio cynydd blwyddyn 10 yn unol a chanlyniadau mewn profion termau/diwedd uned. |